



Cost y Senedd

30 Tachwedd 2021

Cais am wybodaeth.

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 1 Tachwedd, pan wnaethoch ofyn:

- 1. I would like to know the annual cost of running the Senedd.*
- 2. To include all staff costs, heating, lighting, security, special advisors, SM salaries and pensions, i.e. all direct and indirect costs of all Senedd location - in and out of Cardiff. Clearly this information should be readily available.*
- 3. I would also like to know the anticipated extra costs of increasing the number of SMs in Line with Drakeford's desires. Clearly, such a proposal will have been costed for viability.*

Gweler ein hymateb i'ch cais isod.

1. I would like to know the annual cost of running the Senedd.

Gellir dod o hyd i'r wybodaeth y gofynnwyd amdani ar ein gwefan, fel rhan o'n **Adroddiad Blynyddol a Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2020-21**, o dudalen 151 ymlaen.

Sylwer mai ffigurau ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21 yw'r rhain a bod y costau etholiad o £471,000 a gyflwynir yn yr adroddiad yn gostau untro cyn yr etholiad.

Gan fod yr wybodaeth hon eisoes wedi'i chyhoeddi, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes ar gael yn rhesymol mewn ffyrdd eraill.

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6224

E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

- 2. To include all staff costs, heating, lighting, security, special advisors, SM salaries and pensions, i.e. all direct and indirect costs of all Senedd location - in and out of Cardiff. Clearly this information should be readily available.**

Gweler ein hymateb i gwestiwn 1.

- 3. I would also like to know the anticipated extra costs of increasing the number of SMs in Line with Drakeford's desires. Clearly, such a proposal will have been costed for viability.**

Nid yw'r Senedd wedi gwneud unrhyw benderfyniadau ar gynyddu nifer yr Aelodau ac nid oes unrhyw gynnydd penodol y gellir pennu cost ar ei gyfer. Fodd bynnag, gall materion o'r fath gael eu hystyried gan y **Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd**, a sefydlwyd ar 6 Hydref:

- i ystyried y casgliadau a wnaed yn flaenorol gan y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd yn y Bumed Senedd; ac
- erbyn 31 Mai 2022, gwneud argymhellion o ran cyfarwyddiadau polisi ar gyfer Bil Llywodraeth Cymru i Ddiwygio'r Senedd.

Byddai angen costiau manwl i gyd-fynd ag unrhyw ddeddfwriaeth arfaethedig – yn y ffordd arferol – fel rhan o'r dogfennau ategol sy'n ofynnol i gyd-fynd â deddfwriaeth arfaethedig.

Fe wnaeth Comisiwn y Senedd sefydlu'r Panel Arbenigol annibynnol ar Ddiwygio Etholiadol i roi cyngor cadarn, gwleidyddol ddiudedd ar nifer yr Aelodau sydd eu hangen er mwyn cynrychioli pobl Cymru yn effeithiol, y system etholiadol fwyaf addas, a'r oedran pleidleisio isaf ar gyfer etholiadau'r Senedd. Cyhoeddodd y Panel Arbenigol ei adroddiad – **Senedd sy'n Gweithio i Gymru** – ym mis Rhagfyr 2017. Mae Rhan 2 yr adroddiad yn nodi canfyddiadau'r Panel Arbenigol sy'n cynnwys costau amcangyfrifedig ar gyfer 20 a 30 Aelod ychwanegol.

Yn dilyn hynny, sefydlwyd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd ym mis Medi 2019 i archwilio argymhellion y Panel Arbenigol. Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad – **Diwygio'r Senedd: y camau nesaf ym mis Medi 2020**. Roedd yr adroddiad yn cynnwys amcangyfrif o gostau trosiannol ychwanegol ac amcangyfrif o gostau parhaus ychwanegol ar gyfer blynyddoedd sydd, fel arfer, heb etholiad o 2027-28 ymlaen, a blynyddoedd sydd, fel arfer, ag etholiad o 2031-32 ymlaen. Mae'r amcangyfrifon manwl

a'r tybiaethau sylfaenol a ddarparwyd i'r Pwyllgor gan Gomisiwn y Senedd wedi'u nodi yn Atodiad E yr adroddiad.

Mae crynodeb o'r costau amcangyfrifedig wedi'u cynnwys yma:

	Costau trosiannol (£000)	Costau parhaus: blwyddyn nodweddiadol heb etholiad o 2027-28 ymlaen (£000)	Costau parhaus: blwyddyn nodweddiadol ag etholiad o 2031-32 ymlaen (£000)
20 Aelod ychwanegol	2,378	7,405 – 8,604	8,350 – 9,489
30 Aelod ychwanegol	3,230	10,387 – 11,682	11,672 – 12,905

Yn gywir

Buddug Saer
Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth
Senedd Cymru

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Wedd Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dilynwch y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae'r Senedd wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru neu'n ysgrifenedig i

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN